Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

**Teitl:** **Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 Gorchymyn Deddf Cydraddoldeb 2010 (Pennu Awdurdodau Cymreig Perthnasol) 2011**

**Dyddiad:** **9 Mawrth 2011**

**Gan:** **Carl Sargeant, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol**

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar fersiwn ddrafft Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a ddechreuodd ar 21 Medi 2010 ac a ddaeth i ben ar 17 Rhagfyr 2010 i helpu i lunio'r cynigion drafft a'r rheoliadau drafft ar gyfer dyletswyddau cydraddoldeb penodol i'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Cyhoeddir yr adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru yn:

www.cymru.gov.uk/consultations/equality/equalityact2010/?skip=1&lang=cy

**Cefndir**

Ym mis Chwefror 2005, sefydlodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yr Adolygiad o'r Gyfraith Gwahaniaethu i edrych ar anghysonderau yn y fframwaith ar gyfraith gwahaniaethu ac i ystyried y ffordd orau o sicrhau deddfwriaeth cydraddoldeb fwy eglur a syml sy'n arwain at well canlyniadau i'r sawl sy'n profi anfantais.

Sefydlwyd *Fframwaith Tegwch: Cynigion ar gyfer Mesur Cydraddoldeb Unigol i Brydain Fawr* ym Mehefin 2007. Fe'i dilynwyd yn fuan wedyn gan *Fframwaith ar gyfer Dyfodol Tecach – y Mesur Cydraddoldeb',* ac *'Y Mesur Cydraddoldeb - Ymateb y Llywodraeth i'r Ymgynghoriad,* y ddau wedi'u cyhoeddi gan Swyddfa Gydraddoldeb y Llywodraeth.

Yn ddiweddarach, cyhoeddwyd y Mesur Cydraddoldeb yn araith y Frenhines ar 3 Rhagfyr 2008. Cyflwynwyd y Mesur gerbron y Senedd ym mis Ebrill 2009 ac

ar ôl taith lwyddiannus drwy Dŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi cafodd y Mesur Gydsyniad Brenhinol fis Ebrill 2010.

**Deddf Cydraddoldeb 2010**

Dechreuwyd gweithredu mwyafrif y Ddeddf Cydraddoldeb ar 1 Hydref 2010.

Fel y mae wedi'i chyflwyno ar hyn o bryd, mae'r Ddeddf yn cryfhau'r gyfraith mewn nifer o feysydd. Mae'r Ddeddf yn:

- Ymestyn yr amgylchiadau lle caiff person ei amddiffyn rhag gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth oherwydd nodweddion gwarchodedig.

- Ymestyn yr amgylchiadau lle caiff person ei amddiffyn rhag gwahaniaethu drwy ganiatáu i bobl wneud hawliad os gwahaniaethir yn uniongyrchol yn eu herbyn oherwydd cyfuniad o ddwy nodwedd warchodedig berthnasol.

- Creu dyletswydd ar gyrff cyhoeddus rhestredig wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau ac ar bobl eraill wrth iddynt ymgymryd â swyddogaethau cyhoeddus i roi sylw dyledus wrth ymgymryd â'u swyddogaethau i:

    - Ddileu ymddygiad a waherddir gan y Ddeddf;
    - Hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a rhai nad ydynt; a
    - Meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt. Effaith ymarferol hyn yw y bydd yn rhaid i gyrff cyhoeddus rhestredig ystyried sut fydd eu polisïau, eu rhaglenni a'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn effeithio ar bobl â nodweddion gwarchodedig.

- Caniatáu cyflogwr neu ddarparwr gwasanaeth neu sefydliadau eraill i gymryd camau positif er mwyn galluogi cyflogeion neu gwsmeriaid presennol neu bosibl i oresgyn neu leihau unrhyw anfantais sy'n deillio o nodwedd warchodedig i'r graddau posibl;

- Ymestyn y caniatâd i bleidiau gwleidyddol i ddefnyddio rhestrau byr sy'n cynnwys merched yn unig ar gyfer ymgeiswyr etholiadau hyd 2030.

- Galluogi tribiwnlysoedd cyflogaeth i wneud argymhelliad i ymatebwr sydd newydd golli hawliad yn erbyn achos o wahaniaethu i gymryd camau penodol i unioni materion nid er budd yr unigolyn a wnaeth yr hawliad yn unig (a all fod eisoes wedi gadael y sefydliad dan sylw) ond hefyd er budd y gweithlu ehangach.

- Diwygio cyfraith eiddo teuluol i ddiddymu darpariaethau gwahaniaethol ac i roi hawliau eiddo statudol ychwanegol i bartneriaid sifil yng Nghymru a Lloegr.

- Diwygio Deddf Partneriaeth Sifil 2004 i ddiddymu'r gwaharddiad rhag cofrestru partneriaethau sifil mewn adeiladau crefyddol.

**Cymru**

Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru o ran dyletswyddau cydraddoldeb ar y sector cyhoeddus. Mae adrannau 153 a 154 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i osod dyletswyddau penodol ar gyrff Cymreig perthnasol ac mae adran 151 yn rhoi pŵer iddynt drwy orchymyn a chyda chydsyniad Gweinidog y Goron i ddiwygio Rhan 2 Atodlen 19 sy'n pennu'r cyrff Cymreig perthnasol sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd cydraddoldeb cyffredinol i'r sector cyhoeddus.

Mae gweithdrefn yn cael ei phennu o ran gosod dyletswyddau penodol ar gyrff Cymreig trawsffiniol a ychwanegwyd at Atodlen 19 gan Weinidog y Goron. Mae'r weithdrefn yn galluogi Gweinidogion Cymru i osod dyletswyddau penodol o ran swyddogaethau Cymreig datganoledig ar y cyrff trawsffiniol neu ddarparu ar gyfer dyletswyddau penodol a osodir gan Weinidog y Goron ond dim ond ar ôl ymgynghori â Gweinidogion Cymru.

**Yr Ymarfer Gwrando**

Er mwyn ffurfio'r dyletswyddau hyn, cyhoeddodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ar y pryd 'Ymarfer Gwrando' ar 27 Gorffennaf 2009 i gynorthwyo pobl i ystyried sut y gallai'r dyletswyddau newydd weithio. Amlinellwyd rhai syniadau cynnar yn *Hybu cydraddoldeb ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru* i ganfod sut y dylai'r dyletswyddau penodol newydd hyn a ddatblygir gan Lywodraeth Cymru edrych.

Wrth ystyried amlinelliad a chwmpas unrhyw ddyletswyddau cydraddoldeb penodol y dylid eu datblygu yng Nghymru, awgrymwyd rhai meysydd gweithgarwch allweddol lle mae potensial i hybu cyfle cyfartal yn well yng Nghymru:

- Pennu amcanion cydraddoldeb
- Ymgynghori a Chynnwys
- Asesu effaith
- Adrodd ar gynnydd yn erbyn amcanion
- Gwahaniaethau cyflog rhwng y rhywiau a swyddi ar wahân
- Caffael yn y Sector Cyhoeddus
- Sut y mae arolygu'n cynorthwyo'r agenda gydraddoldeb; ac
- Adrodd gan Weinidogion Cymru

**Gweithgarwch yn ystod yr Ymarfer**

Cafodd yr Ymarfer Gwrando ei ddosbarthu i grwpiau a rhwydweithiau cydraddoldeb ledled Cymru. Yn ystod yr ymarfer gwrando, bu swyddogion Llywodraeth Cymru yn mynychu cyfres o weithdai, fforymau a digwyddiadau eraill a drefnwyd i godi ymwybyddiaeth ac i drafod y datblygiadau a'r cyfleoedd a allai ddeillio o'r dyletswyddau newydd hyn. Derbyniodd mudiadau cydraddoldeb arian gan Lywodraeth Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru i ganfod barn mudiadau sy'n cynrychioli grwpiau cydraddoldeb yng Nghymru.

**Yr Ymarfer Gwrando – y Prif Ganfyddiadau**

Derbyniodd Llywodraeth Cymru dros 60 o ymatebion a chyfraniadau gan amrywiaeth o fudiadau ac unigolion yn ystod yr ymarfer gwrando. Y farn gyffredinol oedd:

- Bod yr egwyddorion ynghylch y dyletswyddau'n briodol ac y dylai'r ffordd y cânt eu cymhwyso fod yn gymesur â maint a swyddogaeth yr awdurdod cyhoeddus a'u swyddogaeth.
- Dylai'r dyletswyddau roi elfen o hyblygrwydd i awdurdodau cyhoeddus i benderfynu ar flaenoriaethau lleol ar yr amod eu bod yn cyfrannu at amcanion cenedlaethol.
- Cafwyd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig i bennu amcanion cydraddoldeb.
- Dylid ymestyn yr agwedd bositif tuag at gysylltiad o fewn y rheoliadau anabledd cyfredol i gynnwys y nodweddion gwarchodedig eraill.
- Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi bod yn ddull positif i'r rhan fwyaf o fudiadau ac y dylai unrhyw ddyletswydd barhau lle mae'n ofynnol i asesiadau gael eu cynnal a'u cyhoeddi.
- Rhaid i awdurdodau cyhoeddus gasglu data am bobl sy'n rhannu'r nodweddion gwarchodedig i helpu i ddatblygu amcanion ystyrlon.
- Ni chafwyd consensws ynghylch maint mudiadau y dylid gosod y gofynion hyn arnynt.
- Roedd y rhan fwyaf yn cytuno y dylid cynnwys adrodd ar wahaniaethau cyflog rhwng y rhywiau.
- Cafwyd cefnogaeth i'r angen i gynnwys caffael yn y dyletswyddau penodol.
- Dylai arolygiadau chwarae rôl amlycach i hybu cydraddoldeb.
- Cafwyd mwy o gefnogaeth i adrodd blynyddol gan Weinidogion Cymru ac y dylai adrodd ganolbwyntio ar ganlyniadau positif a negyddol i wella tryloywder.

**Ymgynghoriad ar Ddyletswyddau Cydraddoldeb Penodol i'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru**

Ar 29 Gorffennaf 2010, cymeradwyais y gwaith o ddrafftio'r rheoliadau a'r gorchmynion gofynnol i osod dyletswyddau cydraddoldeb penodol i'r sector cyhoeddus ar awdurdodau cyhoeddus datganoledig rhestredig yng Nghymru.

Ar 21 Medi 2010, cyhoeddais ymgynghoriad cyhoeddus o ddeuddeng wythnos ar y Rheoliadau drafft a oedd yn cael eu cynnig ac a fyddai'n cyflwyno'r dyletswyddau newydd.

Ers cychwyn ar y gwaith o ddatblygu dyletswyddau cydraddoldeb penodol i'r sector cyhoeddus, mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y dylai'r dyletswyddau penodol fod yn:

- Hyblyg – fel y bydd awdurdodau cyhoeddus ond yn gweithredu pan fo hynny'n angenrheidiol ac yn gynhyrchiol; a
- Chymesur – yn ddibynnol ar swyddogaeth a maint yr awdurdod cyhoeddus.

Dylai datblygiad y dyletswyddau cydraddoldeb penodol ddilyn pedair egwyddor. Y rhain oedd:

- **Defnyddio tystiolaeth**: tystiolaeth gadarn dda i ddeall y cymunedau a wasanaethir a llunio camau gweithredu yn y dyfodol;
- **Ymgynghori a chynnwys:** er mwyn i anghenion y dinasyddion helpu i lunio'r broses o gynllunio a darparu gwasanaethau sy'n addas at y diben, yn diwallu anghenion ac yn sicrhau canlyniad cadarnhaol;
- **Tryloywder:** sef sut y pennwyd yr amcanion a sut y cyflwynir adroddiadau cynnydd yn erbyn yr amcanion; ac
- **Rhoi arweiniad:** arweiniad cadarn sy'n creu diwylliant a hinsawdd gadarnhaol yn y sector cyhoeddus i ddefnyddio adnoddau yn effeithiol er mwyn eu helpu i gyflawni eu dyletswyddau cydraddoldeb yn llwyddiannus. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn awyddus i gefnogi awdurdodau cyhoeddus i ddarparu gwell gwasanaethau i ddinasyddion Cymru.

**Gweithgareddau yn ystod yr Ymgynghoriad**

Yn dilyn cyhoeddi'r ymgynghoriad yn ystod dadl lawn ar 21 Medi 2010, cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori a'r rheoliadau ar wefan Llywodraeth Cymru o'r enw 'Deddf Cydraddoldeb 2010: Cyflawni Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru'.

www.cymru.gov.uk/consultations/equality/equalityact2010/?skip=1&lang=cy

Hefyd, agorwyd fforwm trafod ar-lein i annog trafodaeth ac i roi cyfrwng i bobl gyhoeddi eu barn ar yr ymgynghoriad. Cafodd y ddogfen ymgynghori ei hanfon drwy ddulliau electronig hefyd at grwpiau a mudiadau o'r trydydd sector a'r sector cyhoeddus ledled Cymru. Mae ar gael yn Gymraeg a Saesneg a fformat sain.

Bu swyddogion Llywodraeth Cymru yn bresennol mewn cyfres o weithdai, fforymau a digwyddiadau eraill a drefnwyd i godi ymwybyddiaeth ac i drafod yr ymgynghoriad yn fwy manwl. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Digwyddiadau rhanbarthol Cyfnewidfa Cydraddoldeb y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn Abertawe, y Rhyl a Chaerdydd.
- Digwyddiadau Trydydd Sector y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn y Rhyl a Chaerdydd.
- Digwyddiadau ar y cyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru / Canolfan y GIG ar gyfer Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn y Gogledd / y Canolbarth a'r De.
- Grŵp Rhwydwaith Cydraddoldeb y Canolbarth yn Aberystwyth
- Rhoddwyd cyflwyniadau i Gynhadledd Gweithle Stonewall ac i Fforwm y Cymunedau Ffydd; a
- Chynhaliwyd cyfarfodydd ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Comisiynydd Plant Cymru a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru.

Daeth y broses ymgynghori i ben ddydd Gwener 17 Rhagfyr 2010.

## Ymatebion i’r Ymgynghoriad

Mae Llywodraeth Cymru wedi cael 80 o ymatebion a chyfraniadau gan amrywiaeth o fudiadau ac unigolion yn ystod yr ymarferiad ymgynghori. Mae’r adroddiad ar ganlyniad yr ymarferiad wedi’i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, cafodd cynigion polisi diwygiedig a rheoliadau diwygiedig eu llunio a chânt eu cyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 8 Mawrth 2011. Bydd y rheoliadau a’r gorchymyn yn cael eu hystyried gan y Cynulliad ar 29 Mawrth 2011. Yn ddibynnol ar farn y Cynulliad, disgwylir y bydd y dyletswyddau cydraddoldeb penodol newydd i’r sector cyhoeddus yn dod i rym ar 6 Ebrill 2011.